

ENRaW Domestig

Grant Cyfalaf a Refeniw Cyfun Graddfa Fawr:

Partner Arweiniol	Enw'r Prosiect	Crynodeb o'r Project	Cyfanswm y Cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru	Cyllid Cyfatebol
Cyngor Sir Ddinbych	Cysylltiad Da a Chyfleoedd i Bawb	Creu Coridor Gwyrdd/Glas yn cysylltu ac yn gwella adnoddau naturiol ar draws siroedd Dinbych, y Fflint a Chonwy.	£712,506.02	£548,150.00
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Prosiect Seilwaith Gwyrdd Wrecsam	Nod y prosiect yw - <ul style="list-style-type: none"> Gwella seilwaith gwyrdd o fewn rhai o'r wardiau mwyaf difreintiedig Wrecsam. Plannu coed dwys a strwythurol er mwyn lleihau effeithiau llygredd aer a sŵn o ganlyniad i draffig trwm ar hyd llwybr teithio allweddol i Wrecsam. Datblygu rhwydweithiau gwirfoddolwyr yn Wrecsam er mwyn i'r gymuned ymgysylltu â gofalu am a gwella ansawdd amgylcheddol eu gofod gwyrdd. 	£468,748.50	£36,167.00
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	Wales Bioffilig	Bydd y prosiect Cymru gyfan hwn yn cynyddu lles pobl, bioamrywiaeth a'r amgylchedd ledled Cymru, gan ddefnyddio tri phecyn gwaith cydgysylltiedig. Byddwn yn creu grwpiau gwirfoddoli a fydd yn gweithio drwy bob agwedd ar ein prosiect ac yn defnyddio ymgysylltiad cyhoeddus arloesol i gysylltu pobl â'u treftadaeth naturiol. Byddwn yn gwella seilwaith gwyrdd yn y mannau lle gall pobl elwa fwyaf arno.	£920,763.86	£286,767.00
Groundwork Cymru	Gwarchod Cymunedau: Addysgu Cymunedau ac Adfywio Amgylcheddau	Bydd y rhaglen Partneriaeth 'Gwarchod Cymunedau' yn cysylltu'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd â'u hamgylchedd lleol, gan gynyddu gallu cymunedau i warchod, gwella ac elwa ar eu mannau gwyrdd a'u hadnoddau naturiol.	£943,136.00	£0.00

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	Pwyth mewn Pryd Cynaliadwy	Mae'n hysbys fod rhywogaethau anffordorol goresgynnol (INNS) yn cael effaith sylweddol ar amgylchedd, economi a llesiant pobl Cymru. Mae'r prosiect 'Pwyth mewn Pryd' yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu Cymru gyfan wrth fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol mewn ffordd gynaliadwy.	£149,587.00	£35,000.00
Plantlife Cymru	Gweirgloddiau Gwych	Mae Gweirgloddiau Gwych yn brosiect partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned a fydd yn adfer rhwydwaith o ddolydd ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol â dros 20,000 o bobl. Bydd tair rhaglen gyflenwol yn cysylltu pobl â dolydd lleol, yn gwella rheolaeth a sgiliau ac yn gadael gwaddol gwerthfawr o adnoddau ar gyfer y dyfodol.	£817,699.11	£421,996.50
Llais y Goedwig	Llais y Goedwig – llwybrau newydd i gydweithio ar gyfer pobl a choed.	Bydd Llais y Goedwig yn creu cysylltiadau newydd rhwng Grwpiau Coetir a Thirfeddianwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ledled Cymru tra'n cydgrynhoi'r cysylltiadau presennol. Bydd y prosiect yn archwilio ffyrdd newydd o weithio a datblygu offer ac adnoddau i helpu i gael gwared ar rwystrau presennol a meithrin gallu ar y ddwy ochr – gan gynyddu cwrpas ac ansawdd rheoli coetiroedd gan ac ar gyfer cymunedau, gwella bioamrywiaeth a gwneud y gorau o fuddion iechyd a llesiant.	£637,964.75	£0.00
Dŵr Cymru	Cronfeydd Dŵr Llanisien a Llys-faen	Mae prosiect Cronfeydd Dŵr Llanisien a Llys-faen yn dod â phartneriaid newydd o dri sector ynghyd: cyfleustodau dŵr, statudol a gwirfoddol. Bydd y prosiect yn creu canolbwynt ar gyfer iechyd a lles, gan ailgysylltu pobl â dŵr ac â'n hamgylchedd hardd; tra'n cynnal, diogelu a gwella gwerth ecolegol y safle.	£930,881.52	£654,000.00
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)	Partneriaethau Natur Lleol Cymru	Mae'r prosiect hwn yn gydweithrediad newydd rhwng Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, CGGC, awdurdodau lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a'r Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol sy'n ceisio gwneud gwahaniaeth hirdymor, cynaliadwy i adfer natur trwy gydlyn a galluogi gweithredu ar y cyd.	£2,413,740.46	£2,208,009.10

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	Gwent Fwyaf Gydnerth	Mae'r prosiect hwn yn rhagweld De-ddwyrain sydd ag adnodd bioamrywiaeth cyfoethog a chynyddol sy'n cael ei werthfawrogi gan bobl leol sy'n ymgysylltu ag ef er mwyn eu hiechyd a'u llesiant. Bydd gweithgarwch yn cyfrannu hefyd at atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a chynyddu cydnerthedd ecosystemau yn y De-ddwyrain.	£1,293,568.33	£0.00
Cyfanswm (10)			£9,289,714.03	£4,190,089.60